Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

Cefnogi elusennau, gwirfoddolwyr a chymunedau

7. Dod o hyd i arian a'i gael

7.10.7 Cwestiynnau cyffredin Cymorth Rhodd

All unrhyw un wneud datganiad Cymorth Rhodd?
Na; rhaid i'r rhoddwr fod yn drethdalwr yn y DU a rhaid ei fod wedi talu o leiaf gymaint o dreth ag y mae'r elusen yn ei hawlio yn ôl.

Allwn ni dderbyn rhoddion ar y cyd?
Gallwch; os ydych yn derbyn rhoddion o gyfrif banc ar y cyd, a heb gael datganiad Cymorth Rhodd gan y ddau enw, gallwch dybio mai oddi wrth y person a wnaeth y datganiad y mae'r rhodd, os nad yw'r dystiolaeth yn awgrymu fel arall.

Allwn ni hawlio Cymorth Rhodd ar roddion drwy sieciau neu dalebau elusen?
Na; mae rhoddion a wneir drwy daleb elusen, siec elusen neu gerdyn elusen eisoes wedi mynd drwy'r broses o hawlio treth Cymorth Rhodd ac wedi ychwanegu at gyfrif y rhoddwr gan yr elusen sy'n rhoi. Ni allwch gynnwys y rhain pan fyddwn yn hawlio treth.

Allwn ni ddefnyddio Cymorth Rhodd pan fyddwn yn gwerthu cardiau Nadolig?
Na; ni ellir defnyddio Cymorth Rhodd ar gyfer taliadau i brynu nwyddau fel cardiau Nadolig, ond gellir cymhwyso Cymorth Rhodd ar gyfer rhoddion gwirfoddol ychwanegol.

Allwn ni ddefnyddio Cymorth Rhodd wrth werthu eitemau a roddwyd i siopau elusen?
Gallwch; mae hwn yn cynnwys trosi'r eitem i gyfraniad ariannol, wrth i'r elusen weithredu fel asiant y rhoddwr, gan werthu'r eitem a chynnig arian yn ôl i'r rhoddwr. Os yw'r rhoddwr yn dewis cyfrannu'r arian at yr elusen, gellir wedyn defnyddio Cymorth Rhodd. Mae'n hanfodol cael cofnod clir yn cysylltu'r rhoddwr gyda'r eitem a'r arian a godwyd, fel mae caniatâd i ddefnyddio Cymorth Rhodd ynghylch yr arian a godwyd gan yr eitem. Gellir cael mwy o wybodaeth drwy gysylltu â HMRC ar 08453 020203.

Allwn ni ddefnyddio Cymorth Rhodd gyda ffioedd ysgol?
Na; ni ellir defnyddio Cymorth Rhodd i dalu am wasanaethau fel ffioedd ysgol neu goleg, neu fynediad i ddigwyddiadau (serch hynny, gall y gymdeithas rhieni ac athrawon ei ddefnyddio wrth ofyn am roddion tuag at gronfeydd cyffredinol yr ysgol).

Beth am arwerthiannau elusennol?
Mewn rhai achosion gellir cynyddu rhan o'r arian a gynigir am eitem mewn arwerthiant elusennol drwy Gymorth Rhodd. Dim ond pan fo gan yr eitem werth marchnad clir y gellir gwneud hyn, pris a gofnodir ar adeg yr ocsiwn. Er enghraifft, petai £700 yn cael ei gynnig am ddau docyn teithio sydd werth £500 yn y siop deithio ar y stryd fawr, gellir trin y £200 fel rhodd sy'n gymwys ar gyfer Cymorth Rhodd. Dylech gael datganiad Cymorth Rhodd gan y rhoddwr mewn perthynas â'r elfen hon os nad oes gennych chi un yn barod. Nid oes gan eitemau unigryw nac eitemau sy'n ymwneud â pherson enwog werth marchnad clir, ond maent werth beth bynnag a delir amdanynt. Felly, ni all y cynnig ar gyfer eitemau o'r fath gynnwys elfen rhodd.

Beth am raffl neu loteri?
Na; drwy brynu tocyn raffl, loteri neu 'Glwb 100' mae rhywun yn talu am yr hawl i gymryd rhan yn y gystadleuaeth, waeth pwy sy'n ennill na gwerth y wobr. Felly, nid yw'n rhodd ac ni ellir defnyddio Cymorth Rhodd.

Ydy arian tramor yn gymwys ar gyfer Cymorth Rhodd?
Ydy; cewch dderbyn rhodd o arian tramor dan Gymorth Rhodd. Bydd angen i chi a'r rhoddwr gofnodi'r gwerth mewn sterling ar y dyddiad y derbynnir y rhodd.

Beth am ddigwyddiadau her antur ar gyfer codi arian?
Mae arian nawdd a godir ar gyfer y digwyddiadau hyn, teithiau beicio neu deithiau tramor yn aml iawn, yn gymwys ar gyfer Cymorth Rhodd os bodlonir yr holl reolau arferol, gan gynnwys y rheolau ynghylch buddion. Mae'n debyg na fydd rhoddion gan y sawl sy'n cymryd rhan a'i deulu neu ei theulu yn gymwys ar gyfer Cymorth Rhodd gan eu bod yn darparu budd i'r sawl sy'n cymryd rhan sydd dros y cyfyngiadau a ganiateir. (Y budd i'r sawl sy'n cymryd rhan yw cost cymryd rhan yn y digwyddiad ar ôl tynnu unrhyw daliad a wnaed fel blaendal). Ond fel rheol bydd nawdd gan bobl eraill nad ydynt yn perthyn i'r sawl sy'n cymryd rhan yn gymwys ar gyfer Cymorth Rhodd. Mae HMRC yn argymell eich bod yn egluro'r sefyllfa hon i bobl a allai gymryd rhan a rhoddwyr yn llenyddiaeth eich digwyddiad. Yn Ymchwil Cancr y DU mae'r sefyllfa yn glir yn y geiriau yma:

"*Pan fyddwch yn noddi rhywun sy'n perthyn i chi i gymryd rhan mewn her eithafol, mae'n bosib na fedrwch hawlio Cymorth Rhodd. Mae hyn yn wir os ydych yn 'berson cysylltiedig' yn unig. Mae 'person cysylltiedig' yn ŵr neu wraig, perthynas (brawd, chwaer, hynafiad e.e. mam), disgynnydd uniongyrchol (e.e. ŵyr), neu ŵr neu wraig perthynas y person sy'n cymryd rhan.*"

A ellir defnyddio Cymorth Rhodd gyda ffioedd aelodaeth?
Gall; dim ond os nad yw'r buddion yn fwy na rheol buddion HMRC.

Beth os aiff pethau o chwith?
Os oes gennych ddatganiad Cymorth Rhodd, ond nad yw'r rhoddwr wedi talu digon o dreth ar gyfer y dreth wedi'i hawlio'n ôl gan HMRC, y rhoddwr fydd yn gyfrifol am dalu'r diffyg. Nid yw hyn yn effeithio'n gyfreithiol ar hawliad treth yr elusen. Serch hynny, efallai y byddwch eisiau trafod y mater gyda HMRC i weld a ellir trefnu rhywbeth ar ran y rhoddwr.

Gwybodaeth bellach

Cymru'n Rhoi
Llinell gymorth 0800 2888 329
givingwales@wcva.org.uk

Cynllun rhoi drwy'r gyflogres
www.charitablegiving.co.uk

Institute of Fundraising
www.tax-effectivegiving.org.uk

HMRC Charities
Helpline 0845 302 0203
charities@hmrc.gov.uk
www.hmrc.gov.uk

Ymwadiad
Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Tŷ Baltig, Sqwâr Mount Stuart, Bae Caerdydd, Caerdydd, CF10 5FH
Elusen Gofrestredig *218093*

Ffôn: 0800 2888 329 help@wcva.org.uk
Ffacs: 029 2043 1701 www.wcva.org.uk

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli
Wedi ei ddiweddaru:31/03/2011

Ffôn: 0800 2888 329
www.wcva.org.uk